Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad

23 Medi 2022

**Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) - amserlen**

Annwyl Huw

Yn ei gyfarfod yr wythnos hon, cafodd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad llafar gan y Trefnydd ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried effaith y cyfnod o Alaru Cenedlaethol dros Ei Mawrhydi y Frenhines ar y broses graffu ond nid ar hyn o bryd, yw'n cynnig diwygio'r amserlen ar gyfer ystyried y Bil cydgrynhoi hwn.

Fodd bynnag, nododd y Trefnydd y byddai'r Llywodraeth yn barod i drafod estyniad byr i'r terfyn amser ar gyfer Cam yr Ystyriaeth Gychwynnol ar gyfer y Bil pe bai'n ddefnyddiol i'ch Pwyllgor.

O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'ch Pwyllgor a byddai'n ddiolchgar pe gallech ymateb i minnau gan amlinellu eich barn ar yr amserlen erbyn hanner dydd, ddydd Gwener 30 Medi, os yw hynny'n bosibl.

Yn gywir,

Elin Jones

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.